

Trawsnewidwyr

Mae'r adnodd hwn yn cefnogi dysgu am themâu allweddol a phynciau trwy:

Ddaeryddiaeth/ Gwyddoniaeth

Cyfrifoldebau plant

Addysg Grefyddol

Astudio gwaith elusen Gristnogol / Stiwardiaeth / Gofalu am ein byd

ABCh/ Dinasyddiaeth fyd-eang

Cymryd rhan / Cyfrifoldebau / Ymwybyddiaeth fyd-eang / Dinasyddiaeth fyd-eang

Bwriad yr adnodd hwn yw dangos i ddisgyblion bod pobl ar draws y byd – gan gynnwys plant – yn gweithio i wella'u bywydau a gwneud y byd yn well lle. Mae'n egluro bod hyn yn cael ei wneud trwy waith caled pobl ym Mhrydain a thramor, gyda help Cymorth Cristnogol. Mae'r deunydd yn dangos rhai o'r llefydd lle mae Cymorth Cristnogol yn gweithio ac yn annog disgyblion i weld bod ganddyn nhw eu rhan i chwarae i newid y byd.

Mae *Splash!* yn llyfryn am ddim i blant oed 7-11, sy'n egluro gwaith Cymorth Cristnogol mewn mwy o fanylder ac fe all fod yn adnodd defnyddiol i gefnogi'r gwaith dosbarth neu waith cartref. Gallwch weld y llyfryn ar lein yn adran adnoddau www.christianaid.org.uk/learn neu archebu copiâu oddi wrth schoolscymru@cymorth-cristnogol.org

Anelir yr adnodd hwn at blant 7-11 oed.

Byddem yn hoffi'n fawr glywed eich barn chi a barn eich disgyblion am yr adnodd yma. E-bostiwch ni ar schoolscymru@cymorth-cristnogol.org

Gwybodaeth am Cymorth Cristnogol (i athrawon)

Mae Cymorth Cristnogol yn gweithio gyda phobl o bob crefydd ble bynnag mae'r angen mwyaf. Gweithiwn trwy sefydliadau lleol mewn tua 50 gwlad ar draws y byd, gan helpu pobl i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain i'r problemau sy'n eu hwynebu.

Yr ydym yn brwydro i roi diwedd ar dlodi ac yn ymgyrchu i newid y systemau a'r cyfundrefnau sy'n cadw pobl yn dlawd.

Er mai'r Efengyl sy'n ysbrydoli Cymorth Cristnogol, gweithiwn gyda chefnogwyr, pobl gyffredin a sefydliadau o sawl ffydd wahanol a rhai sydd heb grefydd o gwbl. Gwnawn hyn am ein bod yn credu y dylai ffydd gael ei weithredu'n ymarferol i helpu pobl mewn angen.

Gwybodaeth am bartneriaid Cymorth Cristnogol

Nid yw Cymorth Cristnogol yn gweithio ar ei ben ei hun ond yn hytrach gyda phartneriaid yn fyd-eang. Mae'r prosiectau ar flaen y poster yn cael eu rhedeg ar y cyd gyda'r sefydliadau canlynol:

Guatemala: Caja Lúdica Civil Association

Ghana: Social Enterprise and Development Foundation (SEND)

Peru: The Spanish Institute of Foreign Missions (IEME)

Senegal: Réseau Africain pour le Développement Integre (RADI)

Sri Lanka: The Organisation for Eelam Refugee Rehabilitation (OFERR)

Tajikistan: Zumrad

Ysgrifennwyd y deunydd hwn ar gyfer pwrpas addysgiadol. I'w ddosbarthu'n eangach neu er elw masnachol, rhaid cael caniatâd gan Cymorth Cristnogol. Ysgrifennwyd gan Pippa Durn i Cymorth Cristnogol, 2008. Cyfieithwyd i'r Gymraeg gan Elenid Jones. Medr'wch lawr-lwytho'r adnoddau hyn o www.christianaid.org.uk/learn

Wedi ei argraffu ar bapur 100% wedi ei ailgylchu



Credwn mewn byw cyn marw

Rhif elusen gofrestredig y DG: 1105851. Rhif cwmni 5171525

Gwasanaeth: Pe baech chi'n gyfrifol... (15 munud)

Thema: sut mae Cymorth Cristnogol yn gweithio ar draws y byd a sut y gallwn ni helpu i wneud y byd yn well lle i fyw.

Gwlad dan sylw: Byd-eang; Ghana

Adnoddau/ paratoadau:

- Lawr-lwythwch y cyflwyniad PowerPoint 'Trawsnewidwyr' o www.christianaid.org.uk/learn
- Eitem i gynrychioli eich ysgol (blazer, llun o logo'r ysgol ayyb), eitem i gynrychioli Cymru (baner, arwyddbost, map), ac eitem i gynrychioli'r byd (glôb neu fap o'r byd)
- Amlen Wythnos Cymorth Cristnogol wedi ei blygu mor fach â phosib a gyda'r coch yn unig i'w weld (os nad oes gennych un, e-bostiwch ni ar schoolscymru@cymorth-cristnogol.org ac fe wnawn ni anfon un i chi).
- (dewisol) rhai caneuon posib: 'Mae Cymru yn ei law' (Clap a Chân i Dduw – Llyfr 1). 'Mae'n Duw ni mor fawr' (Caneuon Ffydd t172)
- (dewisol) Dameg y Samariad Trugarog (Luc 10: 30-37)
- (dewisol) ceir mwy o wybodaeth am Ghana ar dudalen 'Real-life stories' ar www.globalgang.org.uk

1. Dangoswch y cyflwyniad PowerPoint *Trawsnewidwyr* wrth i'r disgyblion ddod i mewn i'r gwasanaeth a/neu chwaraewch un o'r caneuon a nodir.
2. Gofynnwch : *Pe medrech chi newid unrhyw beth yn y byd, beth fyddai ef? Cymerwch atebion.*
3. Gofynnwch am dri o wirfoddolwyr. Rhwch eitem sy'n cynrychioli eich ysgol i un, eitem sy'n cynrychioli eich gwlad i un arall, ac eitem sy'n cynrychioli'r byd i'r trydydd.
4. Gofynnwch iddyn nhw ddychmygu eu bod yn gyfrifol am y lle y maen nhw'n ei gynrychioli. Pa ddau beth fydden nhw'n ei newid yno? Byddwch yn barod am bob math o ateb – o 'siocled gorfodol i bob plentyn' i 'heddwch byd'!
5. Diolchwch i'r gwirfoddolwyr a dywedwch wrthyn nhw am eistedd i lawr. Yna dywedwch wrth y disgyblion bod gennych chi ryw beth yn eich llaw y gallem ei ddefnyddio i helpu i newid y byd. Dywedwch eich bod yn teimlo'n gyffrous iawn am y peth achos fe allai helpu pobl mewn angen, er enghraifft adeg trychineb fel llifogydd neu sychder, neu fe allai helpu pobl i wella'u bywydau trwy ddechrau busnes eu hunain, er enghraifft, fel bod ganddyn nhw fwy o fwyd i'w teuluoedd.
6. Gofynnwch i'r disgyblion i ddyfalu beth sydd yn eich llaw. Yna dangoswch y sgwaryn bach coch. Ydyn nhw'n credu y gallai hwn drawsnewid y byd?
7. Agorwch y papur yn araf a dangoswch yr amlen iddyn nhw. Holwch os oes rhywun yn gwybod beth ydyw.
8. *Mae Cymorth Cristnogol yn elusen yn y DU ac Iwerddon sy'n gweithio gyda phobl ar draws y byd i'w helpu i ddod o hyd i ffyrdd i wella'u bywydau, megis gosod pibau i ddwyn dŵr glân i'w pentref, neu helpu plant i gael addysg. Mae Cymorth Cristnogol yn gofyn i ni roi arian, weithiau mewn amlen fel hon, er mwyn helpu pobl eraill. Ond nid arian yn unig sydd ei angen i newid y byd. Mae angen i ni fod yn barod i siarad allan os byddwn yn gweld rhywbeth sy'n mynd ymlaen yn y byd sy'n annheg, a gofyn i'r bobl sy'n rheoli, fel ein llywodraeth, i wneud rhywbeth ynglŷn ag ef.*

9. Dangoswch y llun o Musah a Fatimata o'r cyflwyniad PowerPoint *Trawsnewidwyr*.

Dyma Musah a Fatimata. Maen nhw'n byw mewn gwlad hyfryd o'r enw Ghana, yng ngorllewin Affrica. Ynghyd â llawer o blant eraill yn eu hardal, doedd Musah a Fatimata ddim yn gallu mynd i'r ysgol gan nad oedd yna ysgol gerllaw'r lle roeddent yn byw. Ond penderfynodd pobl yn y pentref bod yn rhaid i bethau newid. Daethant i gysylltiad â'r sefydliad SEND, sy'n cydweithio gyda Cymorth Cristnogol a gofyn i'r llywodraeth i adeiladu ysgol. Cymerodd hi amser a gwaith caled ond yn y diwedd fe adeiladwyd yr ysgol. Nawr fe all Musah a Fatimata fynd i'r ysgol. Meddai Musah: 'Roeddwn i wedi cynhyrfu'n llwyr achos roeddwn i wastad eisiau mynd i'r ysgol.' Mae Fatimata yn awr yn edrych ymlaen at y dyfodol: 'Dwi'n wir eisiau bod yn yr ysgol. Mae'n golygu y gallaf i gael swydd a phrynu pethau i'm teulu.' Fe allwn ni gyd weithio tuag at wella ein byd, beth bynnag ein hoedran. Mae Cymorth Cristnogol yn gofyn i bobl ym Mhrydain ac Iwerddon i weddio, gweithredu a rhoi er mwyn gwneud y byd yn lle gwell i bawb sy'n byw ynddo.

Myfyrdod

Gofynnwch i'r plant feddwl am sefyllfa y maen nhw'n gwybod amdani sy'n ymddangos yn annheg neu lle mae angen help ar rywun. Gallai hyn fod yn eu cartref, eu hysgol neu du hwnt. Gofynnwch iddyn nhw ddychmygu beth fedran nhw ei wneud i wella'r sefyllfa. Heriwch nhw i wneud yr hyn a allant i wella'r sefyllfa hon.

Gweddi

O Dduw

Er ein bod ni'n eithaf bach (cyrlio i fyny fel pêl)

A bod y byd yn ymddangos yn fawr iawn (codi a chodi'r breichiau uwch y pen)

Helpa ni i weld (rhoi'r dwylo o gylch y llygaid fel taen nhw'n edrych trwy ysbieddych)

Y gallwn ni fod yn gryf (codi'r breichiau i ddangos cyhyrau)

A helpu i droi pethau gwael i fod yn iawn (siglo bys yn ôl a blaen i ddangos 'gwael' ac wedyn bodiau i fyny i ddangos 'iawn')

Amen